

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn datblygu i lefel cymhwysedd ieithyddol ganolradd mewn Almaeneg, sy'n cyfateb i lefel B1 Fframwaith Cyfeirio Ieithoedd Ewropeaidd Cyffredin Cyngor Ewrop. Byddant yn magu eu hyder wrth wrando, darllen, ysgrifennu, siarad a rhyngweithio yn Almaeneg, ac yn meithrin eu gwybodaeth am gymdeithasau a diwylliannau lle siaredir Almaeneg a'u dealltwriaeth ohonynt. Yn ogystal, mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i ddatblygu eu sgiliau academaidd, digidol a chyflogadwyedd mewn cyd-destunau Almaeneg. Cânt gyfle i astudio'r rhan fwyaf o weithgareddau mewn llyfr neu fel gweithgareddau rhyngweithiol ar-lein ar wefan y modiwl. Bydd y wefan yn defnyddio adnoddau ar-lein dilys i gefnogi dysgu annibynnol a chydweithredol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn Almaeneg neu bwnc perthnasol arall a chymhwysedd siaradwr brodorol neu bron yn frodorol mewn Almaeneg
- profiad helaeth o addysgu, yn ddefnyddiol i oedolion
- sgiliau TG perthnasol da
- ymrwymiad i addysgu iaith gyfathrebol
- sensitifrwydd i'r problemau penodol sy'n gysylltiedig ag addysgu a dysgu ieithoedd o bell
- dealltwriaeth eang o wledydd lle siaredir Almaeneg, eu cymdeithasau a'u diwylliannau
- cydymdeimlad â dull sy'n cyflwyno Almaeneg fel un o ieithoedd y byd
- parodrwydd i feithrin ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol y myfyrwyr
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu iaith.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- cymhwyster addysgu priodol
- profiad o addysgu ar lefel ôl-ddechreuwr
- profiad o addysgu ar-lein.

Gwybodaeth ychwanegol

- byddai profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar addysgu a chefnogi o bell yn ddefnyddiol, ond bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu.
- caiff y tiwtorialau eu cynnal gyda'r hwyr neu ar benwythnosau. Disgwylir i chi fod ar gael i ateb galwadau ffôn neu negeseuon e-bost rhwng tiwtorialau er mwyn helpu'r myfyrwyr gyda'u hanawsterau.
- caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4